Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

Metadata Dda

Metadata yw'r wybodaeth neu'r geiriau sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio gwaith creadigol ar-lein. Mae pob delwedd, fideo, clip sain neu ddogfen angen metadata. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i grwpio eich gwaith gydag eitemau tebyg eraill. Mae metadata yn helpu pobl i ddod o hyd i'ch gwaith wrth chwilio ar-lein.

Pwy **Beth** **Pryd** **Ble**

Teitl: *Ysgrifennwch **beth** yma. Cadwch o'n fyr ac yn berthnasol.*

Disgrifiad: *Ysgrifennwch **pwy**, **beth**, **pryd** a **ble** yma. Disgrifiwch yr hyn ydych chi'n ei weld neu glywed. Meddyliwch hefyd pam bod yr eitem hon yn ddiddorol.*

Enghraifft

Atgynhyrchiad o fasg Rhufeinig

Atgynhyrchiad o fasg a wisgwyd gan y marchoglu yn ystod arddangosfeydd yn Amgueddfa leng Rufeinig Cymru. Roedd masgiau fel hyn yn cael eu gwisgo gan farchoglu'r Rhufeiniaid yn ystod arddangosfeydd mewn llefydd fel yr amffitheatr yng Nghaerllion.

Yn ystod y Satwrnalia, roedd Rhufeiniaid yn diddanu eu hunain gyda gemau a dis, ond hefyd gyda digwyddiadau fel ymladd gladiatoriaid yn yr amffitheatr. Gwrthrych wedi eu dewis gan Ysgol Somerton i gyd-fynd gyda'u fidio am y Satwrnalia. Roedd hyn yn rhan o'r Diwrnod Meddiannu 'Kids in Museums' 2016 yn yr Amgueddfa Leng Rufeinig Cymru.